



YNGHYLCH: DARPARU MARCIAU I WARCHOD MYNEDIAD PREIFAT.

Diolch i chi am eich cais am osod marciau i warchod mynediad preifat. Gan fod galw cynyddol am y ddarpariaeth hon, mae'r meini prawf canlynol mewn grym bellach:-

1. Mae bariau gwynion yn cael eu defnyddio mewn achosion difrifol yn unig lle mae problem barhaus a lle mae cerbydau yn atal mynediad yn aml.
2. Bwriedir i'r llinellau atal gywyr a fyddai fel arall yn parcio ar draws mynediad. Felly gellir gosod y rhain mewn strydoedd preswyl lle mae galw mawr am lefydd parcio gan bobl nad ydynt yn byw yn y cyffiniau, e.e. ger ardaloedd siopa neu ardaloedd masnachol. Ni osodir y rhain lle mae'r problemau o ran parcio yn cael eu hachosi gan gymdogion.
3. Gosodir y llinellau hyn yn unol â'r Rheoliadau Marciau Ffyrdd, gan ddefnyddio deunydd gwyn nad yw'n adlewyrchol.
4. Dylid nodi nad oes gan y marciau hyn rym y gyfraith. Fodd bynnag, os caiff cerbyd ei barcio mewn man lle mae'r marciau hyn, mae presenoldeb y llinell yn tueddu i ategu bod trosedd yn cael ei chyflawni o ran atal mynediad.
5. Os cytunir i wneud y gwaith codir tâl o £80 ynghyd â TAW. Mae'n rhaid anfon siec neu archeb bost sydd yn daladwy i Gyngor Sir Caerfyrddin gyda phob cais.

Amgaeaf siec / archeb bost am £96.00

Rhif Y siec Ticiwch os ydych am gael debynneb <input type="checkbox"/>	
Eich Cyfeiriad:-	Anfonwch i'r cyfeiriad usod :- Adran Traffic,, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Adran Yr Amgylchedd, Parc Myrddin, Bloc 2, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ.
Rhif ffôn.:	Ebost:
Llofnod	(Enw mewn Priflythrennau)
Dyddiad:	